

Athro Celf a Dylunio

Cyflwyniad

Mae athrawon celf a dylunio'n dysgu sgiliau celf, dylunio a chrefft amrywiol.

Adwaenir hefyd fel

- Athro, Celf a Dylunio

Gweithgareddau Gwaith

Mae athrawon celf a dylunio ysgolion uwchradd yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau mewn meysydd amrywiol, gan gynnwys

- lluniadu
- peintio
- cerflunwaith
- graffeg
- dylunio tecstilau
- ffotograffiaeth.

Maent yn annog myfyrwyr i ddefnyddio eu sgiliau a'u dychymyg i gyfleu syniadau, teimladau ac ystyron. Maent yn dysgu myfyrwyr am ffyrdd o ddefnyddio a deall celf, crefft a dylunio mewn hanes a chymdeithas, gan gynnwys mewn gwahanol ddiwylliannau o gwmpas y byd.

Maent hefyd yn cynllunio ac yn arwain ymweliadau i leoedd o ddiddordeb fel orielau celf ac amgueddfeydd, sioeau ffasiwn ac arddangosfeydd ffotograffiaeth.

Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys

- Paratoi a chynllunio gwersi.
- Creu neu addasu adnoddau gwersi.
- Marcio gwaith a rhoi adborth.
- Mynd i gyfarfodydd staff a nosweithiau rhieni.
- Gosod a gorfodi safonau ymddygiad.
- Nodi disgyblion sy'n tangyflawni a rhoi cymorth ychwanegol os oes angen.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel athro/athrawes celf a dylunio bydd arnoch angen:

- Y gallu i ysgogi, ysbrydoli ac annog myfyrwyr.
- Sgiliau cyfathrebu.
- Y gallu i gadw disgyblaeth ac ymdrin ag ymddygiad anodd.
- Sgiliau trefnu a chynllunio.
- Sgiliau TGCh, gan gynnwys sgiliau cynllunio â chymorth cyfrifiadur (CAD).

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog

Mae athrawon yn y sector addysg wladol yn cael eu talu ar raddfa yn ôl eu cymwysterau, profiad a chyfrifoldebau. Mae'r cyflogau uchaf i'w cael mewn ysgolion yn Llundain fewnol.

Rhoddir cyfraddau cyflog bras (y flwyddyn) isod.

- Mae athrawon heb gymhwyso [nad ydynt wedi cyrraedd Statws Athro Cymwysedig eto] yn ennill tua £16,000 - £25,000.



- Mae athrawon cymwysedig yn ennill tua £21,500 - £31,500.
- Mae 'athrawon uwch-sgiliau' yn ennill tua £37,500 - £57,000.
- Mae 'athrawon rhagorol' yn ennill tua £39,500 - £52,000.

Yn y sector preifat, mae cyflogau'n uwch at ei gilydd, er eu bod yn gysylltiedig â graddfeydd cyflog y sector gwladol weithiau.

Oriau gwaith

Mae athrawon fel arfer yn gweithio o 8:30 am neu 9 am tan 3:30 pm neu 4 pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gweithio oriau ychwanegol – yn marcio gwaith, paratoi gwersi a mynd i gyfarfodydd. Maent yn gorfod gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn aml i baratoi gwersi a marcio gwaith.

Ble gallwn i weithio?

Y cyflogwyr yw ysgolion gwladol a phreifat.

Mae cyfleoedd i ddysgu mewn gwledydd eraill.

Mae rhai athrawon yn ategu eu hincwm drwy ddysgu'n breifat, marcio arholiadau cenedlaethol neu ysgrifennu gwerslyfrau.

Ble mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?

Mae swyddi'n cael eu hysbysebu gan awdurdodau lleol ac yn y wasg leol a chenedlaethol, gan gynnwys The Guardian a The Times Educational Supplement (TES). Mae yna hefyd fyrdau swyddi, fel eTeach.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dod yn athrawon celf a dylunio ysgol uwchradd drwy ddilyn cwrs ôl-radd TAR mewn celf/celf a dylunio uwchradd. Mae hyn yn arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC). Mae'r cyrsiau fel arfer yn gyrsiau amser-llawn blwyddyn o hyd.

Bydd angen i chi ymgeisio am le ar gwrs TAR drwy Hyfforddiant Athrawon UCAS.

Dewis arall yw'r cynllun School Direct sy'n seiliedig ar gyflogaeth: byddwch yn hyfforddi wrth weithio mewn ysgol. Disgwylir y byddwch yn mynd ymlaen i weithio yn yr ysgol neu'r grwp o ysgolion lle cawsoch eich hyfforddi, ond nid oes sicrwydd o waith ar ddiwedd eich hyfforddiant.

Gallwch hefyd hyfforddi mewn ysgol ar ôl eich gradd drwy hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn ysgol (SCITT). Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu darparu gan grwpiau o ysgolion a cholegau cyfagos ac yn aml iawn maent yn ceisio diwallu anghenion addysgu lleol.

Elusen sy'n recriwtio ac yn cynorthwyo graddedigion i addysgu mewn ysgolion anodd mewn nifer o ranbarthau ym Mhrydain yw Teach First. Mae'n cymryd dwy flynedd i gwblhau'r rhaglen.

I gael Statws Athro Cymwysedig, rhaid i ddarpar athrawon basio profion Saesneg a mathemateg.

Hyfforddiant

Ar ôl iddynt gael gwaith, rhaid i athrawon sydd newydd gymhwyso (ANG) gwblhau cyfnod ymsefydlu o dri thymor, fel arfer mewn un flwyddyn ysgol.

Cynnydd

Mae cyfleoedd i athrawon fynd ymlaen i faes hyfforddi athrawon, gwaith cynghori, ymchwil addysgol neu arolygu ysgolion.

Gall athrawon ddod yn benaethiaid adrannau, penaethiaid blwyddyn, neu'n gydlynwyr anghenion addysgol arbennig neu gyfarwyddyd gyrfaoel.

Adsefydlu Troseddwy

Mae'r yrfa hon yn eithriad i Ddeddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi roi gwybodaeth i'ch cyflogwr am unrhyw gollfarnau sydd wedi darfod neu heb ddarfod, rhybuddion neu geryddon, os ydynt yn gofyn i chi wneud. Mae hyn yn wahanol i yrfaeodd eraill lle mae'n rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth am gollfarnau sydd heb ddarfod dim ond os gofynnir i chi.

Cymwysterau

Mae ar bob ymgeisydd ar gyfer hyfforddiant athrawon angen TGAU (neu gymwysterau cyfatebol cydnabyddedig) gradd C neu uwch mewn Saesneg Iaith a Mathemateg.

Os ydych eisiau dysgu Cyfnod Allweddol 3 (11-14 oed), rhaid i chi hefyd gael TGAU (neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig) gradd C neu uwch mewn pwnc gwyddonol.

I gael lle ar gwrs TAR, bydd arnoch angen gradd mewn pwnc perthnasol megis celf a dylunio, celfyddyd gain, dylunio ffasiwn, ffotograffiaeth neu dechnoleg tecstilau. Gall hanes celf fod yn dderbyniol hefyd, cyn belled eich bod yn gallu darparu tystiolaeth o'ch gallu ymarferol mewn celf neu faes cysylltiedig.

Y gofynion arferol er mwyn cael lle ar gwrs gradd mewn celf a dylunio yw:

- 2/3 Safon Uwch, gan gynnwys pwnc perthnasol fel Celf a Dylunio neu Ddylunio a Thechnoleg
- TGAU graddau C ac uwch yn eich pynciau Safon Uwch.

Mae'r dewisiadau eraill yn lle Safon Uwch yn cynnwys:

- Cymwysterau Cenedlaethol Edexcel (BTEC) lefel 3
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol.

Fodd bynnag, mae gofynion cyrsiau'n amrywio, felly edrychwch yn ofalus ar brosbectysau.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gywerth ag 1 Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Cyrsiau

Os nad yw'r cymwysterau gennych i gael lle ar gwrs gradd, efallai y gallwch ddechrau un ar ôl cwblhau cwrs Mynediad fel Mynediad i Gelf a Dylunio mewn coleg neu brifysgol. Nid oes angen unrhyw gymwysterau i ddechrau cwrs Mynediad fel arfer, ond dylech gysylltu â darparwr y cwrs i wneud yn siwr.

Dysgu o bell

Mae rhai cyrsiau TAR ar gael ar sail dysgu hyblyg. Er enghraifft, efallai y gallwch hyfforddi drwy gyfuno dysgu o bell ag ymarfer dysgu mewn ystafell ddosbarth ac astudio ar gampws.

Hyfforddiant yn y gweithle

Yn hytrach na mynd i brifysgol i wneud TAR, gall graddedigion ddilyn llwybr sy'n seiliedig ar gyflogaeth. Mae hyn yn golygu y byddwch yn hyfforddi mewn ysgol. Mae llwybrau sy'n seiliedig ar gyflogaeth yn cynnwys School Direct, hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn ysgol (SCITT) a'r cynllun sy'n cael ei gynnig gan Teach First. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch dan 'Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant'.

Cyllid

Mae hyfforddeion sy'n dilyn Rhaglen Hyfforddi School Direct (â chyflog) yn cael cyflog. Ar gyfer Rhaglenni Hyfforddi School Direct eraill, efallai y byddwch yn cael bwrsari o hyd at £20,000. Edrychwch ar wefan yr Adran Addysg i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Chartered Society of Designers (CSD)**
E-bost info@csd.org.uk

Gwefan www.csd.org.uk

- **UCAS Teacher Training**
Gwefan www.ucas.com/how-it-all-works/teacher-training
- **Teach First**
Gwefan www.teachfirst.org.uk
- **Department of Education Northern Ireland**
Irish enquiries
E-bost DE.DEWebMail@education-ni.gov.uk
Gwefan www.deni.gov.uk
- **General Teaching Council for Scotland (GTC Scotland)**
Scottish enquiries
E-bost gtcs@gtcs.org.uk
Gwefan www.gtcs.org.uk
- **GOV.UK**
UK government services and information
Gwefan www.gov.uk
- **Teach in Scotland**
Scottish enquiries
E-bost teaching@infoscotland.com
Gwefan www.teachinginscotland.com
- **Hiive**
Hiive is the online professional network for creative people.
Gwefan app.hiive.co.uk/

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Nyrs Feithrin
- Aseswr NVQ
- Goruchwyllydd Amser Cinio
- Athro Hanes
- Athro Daearyddiaeth
- Athro Ieithoedd Tramor Modern
- Cynorthwy-ydd Addysgu
- Athro Cerddoriaeth
- Athro Saesneg
- Athro Mathemateg
- Athro Gwyddoniaeth
- Swyddog Lles Addysg
- Gweithiwr Chwarae
- Athro Anghenion Addysgol Arbennig
- Athro Dylunio a Thechnoleg
- Athro Blynyddoedd Cynnar
- Athro Addysg Gorfforol
- Athro Cynradd
- Athro Uwchradd
- Rheolwr Hyfforddi
- Darlithydd Addysg Uwch
- Rheolwr Busnes Ysgolion
- Athro Saesneg fel Iaith Dramor
- Darlithydd
- Athro/Athrawes
- Athro Cymraeg
- Cynorthwydd Meithrin
- Pennaeth